# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Iau, 3 Awst 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, A. Davies, C.A.. Davies, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, J.G. Prosser and D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol yn arsylwi:** Cynghorydd P.M. Hughes (Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu’r Cyhoedd)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M. Heath, Swyddog Trwyddedu
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Yn cynrychioli Heddlu Dyfed-Powys: Mr. M. Price

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.52 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd F. Akhtar.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod. | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A Davies | 7 - Mr Eirwyn Lyn Davies - Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Yn adnabod yr ymgeisydd |

## 3. TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr David John Green o Gorslas Minibuses Ltd, 6 Waungoch, Tymbl Uchaf, Llanelli, Sir Gaerfyrddin am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor o ran Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer ei gerbydau hurio preifat PH588, Ford Tourneu rhif cofrestru CK17 MVC a PH 521, Ford Tourneu rhif cofrestru CK64 DTF.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Green yn cael ei ganiatáu.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL ganiatâu cais Mr David John Green am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor o ran Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer ei Ford Tourneus PH 588, rhif cofrestru CK17 MVC, a PH 521 rhif cofrestru CK64 DTF.**

4. **TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Stephen David King o Kingsway Executive Travel, 173 Bryn Uchaf, y Bryn, Llanelli, Sir Gaerfyrddin am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor o ran Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer ei gerbyd hurio preifat PH585 sef Mercedes V250 rhif cofrestru CE17 MYY.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr King yn cael ei ganiatáu.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Stephen David King am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor o ran Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat mewn perthynas â'i gerbyd hurio preifat PH585 rhif cofrestru CE17 MYY.**

5. **MISS KAREN MAY STRATFORD - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Miss Karen May Stratford o 73 Heol Llwchwr, Rhydaman, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss Stratford ynghylch ei chais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Miss Stratford yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Miss Karen May Stratford am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

<u>Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

6. **MR DELWYN SCOTT PANAYIOTIOU - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Delwyn Scott Panayiotiou o 8 Henllys, Stryd y Gwynt, Abertawe am ganiatáu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Panayiotiou ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Panayiotiou yn cael ei wrthod.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Delwyn Scott Panayiotiou am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

<u>Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. MR EIRWYN LYN DAVIES - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

(NODER: Gadawodd y Cynghorydd A Davies, a oedd wedi datgan buddiant yn gynharach yn yr eitem hon, Siambr y Cyngor tra bo'r Pwyllgor yn ei hystyried).

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Eirwyn Lyn Davies o 5 Yr Hafod, Saron, Rhydaman, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr. Davies yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, roi rhybudd terfynol i Mr Eirwyn Lyn Davies ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR, COFNODION CYFARFORD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR Y 27AIN MEHEFIN, 2017.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor, er ystyriaeth, gofnodion cyfarfod 27 Mehefin, 2017 a rhoddwyd gwybod iddynt am y newidiadau canlynol i'r cofnodion:

- Cofnod 1 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb – Y Cynghorydd K Howell i'w gynnwys yn y rhestr o ymddiheuriadau
- Cofnod 7 – Mr Ivor John Daniel – Cais am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai / Cerbyd Hurio Preifat – y cyfeiriad yn y penderfyniad at ‘Mr

Vinson' i'w newid fel ei fod yn darllen Mr Ivor John Daniel.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar y newidiadau uchod, lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2017 gan eu bod yn gywir.**

| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |
| --- | --- |